

PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 12 Mehefin, 2023.

Mae'r Agenda ar [gael yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar [gael yma](#).

Yn Bresennol: G. Chapman; M. Evans a N. Ireland (Aelodau Lleyg); Cynghorwyr P. Drake, E. Goodjohn, M.J. Hooper, J.M. Norman, J. Protheroe a N.J. Wood.

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr R.M. Birch (Aelod Cabinet dros Addysg, y Celfyddydau a'r Gymraeg), L. Burnett (Arweinydd Gweithredol ac Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau), C.P. Franks a G. John (Aelod Cabinet dros Hamdden, Chwaraeon a Lles); S. J. Byrne (Archwilio Cymru), J. Mansfield (Pennaeth Dros Dro – Ysgol Stanwell – Arsylwi yn unig).

91 CYHOEDDIAD –

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol".

92 PENODI CADEIRYDD –

PENDERFYNWYD – PENODI G. Chapman (Aelod Lleyg) yn Gadeirydd am y flwyddyn ddinesig gyfredol.

93 PENODI IS-GADEIRYDD –

PENDERFYNWYD – PENODI N. Ireland (Aelod Lleyg) yn Is-Gadeirydd ar gyfer y flwyddyn ddinesig gyfredol.

94 COFNODION –

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Ebrill, 2023 fel cofnod cywir, yn amodol ar egluro, o dan gofnod rhif 944 – Siarter Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol, fod awgrym y Pwyllgor y dylid cyfeirio'n benodol at Leyg. Aelodau yn ymwneud â Siarter 2023/24.

95 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

96 CYNGOR BRO MORGANNWG – CYMHWYSO'R EGWYDDOR DATBLYGU CYNALIADWY MEWN MEYSYDD GWASANAETH (CYF) –

Cafodd yr eitem a gyfeiriwyd o'r Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol ar 24 Mai, 2023, fel yr oedd wedi'i chynnwys ar yr agenda, ei chyflwyno gan y Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol.

Yn ystod 2021/22, cododd Archwilio Cymru bryderon ynghylch dull y Cyngor o fynd i'r afael â chynnig ar gyfer gwella a oedd yn deillio o'r adolygiad o Wasanaethau Hamdden ar Gontract Allanol. Roedd hyn yn gysylltiedig â chryfhau gweithrediad yr egwyddor datblygu cynaliadwy wrth adnewyddu contract hamdden y Cyngor. Er y cafwyd cryn sicrwydd o'r camau dilynol a gymerwyd gan y Cyngor mewn ymateb i'r pryderon a godwyd, roedd Archwilio Cymru yn gofyn am sicrwydd pellach i sicrhau bod y gwersi a ddysgwyd yn cael eu hymwreiddio ar draws gwasanaethau'r Cyngor.

Cynhaliwyd adolygiad dilynol gan Archwilio Cymru yn ail hanner 2022 i gael sicrwydd pellach bod y Cyngor yn cryfhau ei drefniadau i sicrhau bod meysydd gwasanaeth yn cymhwyso'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy.

Roedd yr adroddiad (wedi'i gynnwys yn Atodiad A) yn amlinellu prif ganfyddiadau'r gwaith hwn. Roedd canfyddiadau'r adolygiad yn gadarnhaol ac yn casglu bod 'trefniadau'r Cyngor i sicrhau bod meysydd gwasanaeth yn cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy i raddau helaeth yn effeithiol, er bod lle i ddatblygu rhai elfennau ymhellach.' Dyma rai o'r prif ganfyddiadau:

- Roedd uwch swyddogion y Cyngor, gyda chefnogaeth fframwaith corfforaethol, yn helpu i ysgogi diwylliant cadarnhaol a oedd yn cynorthwyo gwasanaethau i gymhwyso'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy, ond nid oedd hyn wedi'i ymgorffori'n llawn ym mhecyn cymorth rheoli prosiect y Cyngor;
- Roedd cefnogaeth gorfforaethol effeithiol ar gael i helpu meysydd gwasanaeth i gymhwyso'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy, ond roedd cyfle i'r Cyngor gryfhau ei arlwy dysgu a datblygu; ac
- Roedd gan y Cyngor fecanweithiau ar waith a oedd yn ei helpu i asesu a oedd meysydd gwasanaeth yn cymhwyso'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy yn effeithiol ac yn cymhwyso gwersi a ddysgwyd i gryfhau ei drefniadau.

Gwnaed dau argymhelliad:

- A1: Dylai'r Cyngor ddatblygu ei becyn cymorth rheoli prosiect i sicrhau bod y dogfennau hynny'n helpu swyddogion i gymhwyso'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy o'r cychwyn cyntaf.
- A2: Dylai'r Cyngor ddatblygu ei arlwy dysgu a datblygu er mwyn helpu i sicrhau bod staff ar draws y sefydliad yn deall Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac yn gallu cymhwyso'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy fel bo'r angen yn eu rolau.

Mewn ymateb i'r argymhellion uchod, roedd y Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol wedi datblygu cynllun gweithredu (wedi'i gynnwys yn Atodiad B yr adroddiad) y

byddai'r Cyngor yn ei roi ar waith. Yn unol â threfniadau monitro perfformiad y Cyngor, byddai cynnydd yn erbyn meysydd gwella rheoleiddiol yn cael ei fonitro drwy'r Traciwr Cipolwg.

Nodwyd y byddai adroddiad diweddar i fonitro cynnydd y cynllun gweithredu yn cael ei ddarparu bob 6 mis.

Wedi hynny,

PENDERFYNWYD –

- (1) CYMERADWYO camau gweithredu arfaethedig y Cyngor yn Atodiad B i'r adroddiad, a darparu diweddariad ar gynnydd bob 6 mis.
- (2) Y DYLLID cyfeirio'r adroddiad at y Cabinet i'w ystyried a'i gymeradwyo.

Rhesymau dros benderfyniadau

- (1) Ystyried cynnwys yr adroddiad a thrafodaethau yn y cyfarfod.
- (2) I'r Cabinet ystyried a chymeradwyo'r camau gweithredu yn Atodiad B.

97 CYNGOR BRO MORGANNWG: CALENDR PERFFORMIAD BLYNYDDOL 2023/24 (CYF) –

Cafodd yr eitem a gyfeiriwyd o'r Cabinet ar 25 Mai, 2023, fel yr oedd wedi'i chynnwys ar yr agenda, ei chyflwyno gan y Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol.

Dywedodd y Cyfarwyddwr mai pwrpas yr adroddiad oedd rhoi trosolwg o'r gweithgareddau'n gysylltiedig â pherfformiad y byddai'r Cyngor yn eu cyflawni dros gyfnod o 12 mis.

Roedd yr adroddiad hefyd yn amlinellu'r prif ganfyddiadau a'r hyn a ddysgwyd o ymagwedd adolygu Hunanasesiad Blynyddol y flwyddyn gynt, ac yn gwneud cynigion i wella'r broses eto yn barod am hunanasesiad 2022/23. Roedd Atodiad A yr adroddiad yn amlinellu rhaglen dreigl o waith ar y cyd â'r Aelodau drwy gydol Calendr Perfformiad Blynyddol 2023/24 i ddatblygu eu sgiliau a'u gwybodaeth a chryfhau eu hymglymiad i siapio a mireinio'r cynlluniau, yr adroddiadau a'r prosesau allweddol a fyddai'n eu helpu yn eu rôl allweddol wrth asesu a oedd y Cyngor yn cyflawni ei Amcanion Llesiant, yn sicrhau gwerth am arian ac yn gwella llesiant ei ddinasyddion.

Holodd y Cynghorydd M. Hooper sut roedd y gweithgarwch ymgysylltu cyhoeddus yn wahanol i'r hyn a wnaed y flwyddyn gynt, a sut roedd y Cyngor yn defnyddio'r cyhoedd fel "bwrdd seinio". Cyfeiriodd y Cynghorydd Hooper hefyd at weithdai a oedd wedi cael eu trefnu i Aelodau Etholedig, gan ddweud y dylid cynnal rhai ohonynt wyneb yn wyneb. Yn olaf, cyfeiriodd y Cynghorydd Hooper hefyd at wneud darpariaeth arbennig ynghylch ymgysylltu ag Undebau Llafur. Mewn ymateb i hyn, dywedodd y Cyfarwyddwr fod Undebau Llafur yn eithriadol o bwysig a bod

deddfwriaeth benodol yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r Cyngor ymgysylltu â'r Undebau Llafur ynghylch yr Hunanasesiad Blynyddol. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr fod perthynas y Cyngor â'r Undebau Llafur yn gadarnhaol ac adeiladol, ac y byddai ymgysylltu â'r Undebau Llafur yn cael ei ychwanegu at yr amserlen a ddangoswyd o dan baragraff 2.13 yr adroddiad. O ran gweithdai, dywedodd y Cyfarwyddwr ei fod yn awyddus iawn i gael cymaint o adborth a chyfranogiad ag a oedd yn bosib, felly byddai'n hapus i edrych ar y modd y cynhelir gweithdai. O ran sut y gallai'r Cyngor gynyddu ei allu i ddefnyddio'r cyhoedd fel bwrdd seinio ac ymgysylltu â'r cyhoedd, dywedodd y Cyfarwyddwr fod dwy agwedd ar hyn. Yr agwedd gyntaf oedd y modd yr oedd y Cyngor yn rhoi myfyrdod mwy cynhwysfawr o fewn yr Hunanasesiad, ac y dylai fanlyu ar y sgysiau a gafwyd drwy ymgysylltu, gweithgareddau ac ymgynoriadau a oed wedi'u cynnal dros y cyfnod hwnnw o 12 mis. O ganlyniad i hynny, roedd y Cyfarwyddwr yn gweithio gyda chydweithwyr i edrych ar gyfleoedd am ymarferion ymgysylltu mwy ar raddfa ehangach i ddylanwadu ar broses Hunanasesu, a chyfrannu at y broses honno. Yn rhan o Gynllun Cyflawni Blynyddol y Cyngor, amlygodd y Cyfarwyddwr hefyd y byddai ymgysylltu'n digwydd yn gysylltiedig â meysydd fel proses pennu'r gyllideb.

Dywedodd y Cynghorydd Hooper ei bod hi'n bwysig i'r cyhoedd deimlo bod eu cyfraniadau'n cael gwrandawriad ac ystyriaeth, hyd yn oed os nad oedd y Cyngor yn cytuno â'r pwyntiau a oedd yn cael eu codi.

Yn dilyn sylwadau'r Cynghorydd Hooper, dywedodd y Cadeirydd, G. Chapman, fod trefniadau i ymgysylltu â staff, y cyhoedd a rhanddeiliaid eraill allweddol wedi'u hamserlennu yn ystod mis Awst, pan fyddai llawer o bobl ar eu gwyliau. Roedd hi hefyd yn dymor haf yr ysgolion. Awgrymodd y Cadeirydd felly y dylid cynnal y gweithgarwch ymgysylltu a oedd wedi'i gynllunio ar gyfer mis Awst dros gyfnod estynedig. Roedd y Cadeirydd hefyd yn cytuno â phwyntiau'r Cynghorydd Hooper, sef bod angen i'r cyhoedd deimlo'u bod yn cael gwrandawriad, ac y dylid cynnwys sylwadau i ddangos sut y rhoddwyd ystyriaeth iddynt.

Gan nad oedd unrhyw sylwadau na chwestiynau pellach, penderfynodd y Pwyllgor

PENDERFYNWYD –

(1) BOD Calendr Perfformiad Blynyddol Bro Morgannwg 2023/24 a'r dull arfaethedig o ymgysylltu ag Aelodau yn ystod y flwyddyn i lunio a mireinio'r Calendr Perfformiad Blynyddol o weithgareddau ac i gefnogi Aelodau yn eu gwaith craffu nodi rôl.

(2) BOD y Cabinet yn cael gwybod am farn Aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, sef:

- Ystyried ymestyn y gweithgaredd ymgysylltu â'r cyhoedd a drefnwyd ar gyfer Awst 2023 gan y bydd llawer o bobl ar wyliau ac oherwydd tymor haf yr ysgol.
- Bod y Cyngor yn sicrhau bod aelodau'r cyhoedd yn teimlo bod eu barn wedi'i chlywed a bod ymatebion wedi'u darparu i ddangos sut yr ystyriwyd y safbwyntiau hynny.

Rheswm dros y penderfyniadau

(1&2) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

98 DIWEDDARIAD CH4: AMSERLEN RHAGLEN WAITH ARCHWILIO CYMRU 2022/23 – CYNGOR BRO MORGANNWG (CAC) –

Roedd yr adroddiad yn rhoi diweddariad i'r Aelodau o amserlen rhaglen waith Archwilio Cymru yn Ch4, fel yr oedd wedi'i halinio â Chynllun Archwilio Blynyddol Cyngor Bro Morgannwg 2022.

Gofynnwyd i Aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio adolygu a nodi'r cynnydd a wnaed ar Raglen Gwaith Archwilio Bro Morgannwg yn Ch4, ac ar ôl ystyried hynny, cyfeirio'r adroddiad i'r Cabinet fwrw golwg arno.

I roi diweddariad, dywedodd SJ Byrne (Archwilio Cymru) wrth y Pwyllgor fod gwaith yn dal i fynd rhagddo yn gysylltiedig ag archwiliad o hawliadau a ffurflenni grant ar gyfer 2021/22 a oedd i fod i gael ei gwblhau'n wreiddiol ym mis Mai. O ran yr archwiliad o ddatganiad cyfrifon 2022/23, rhagwelwyd y byddai'r cyfrifon drafft yn barod dros yr ychydig wythnosau nesaf, a byddai cydweithwyr archwilio mewn cysylltiad â thîm cyllid y Cyngor i gadarnhau graddfeydd amser. O ran darnau eraill o waith, roedd hynny'n cynnwys gwaith adolygu'n gysylltiedig â rheoli rhaglen gyfalaf pob un o 22 o Gynghorau Cymru. Roedd gwaith adolygu thematig arall sy'n cael ei wneud ledled Cymru yn cynnwys defnyddio gwybodaeth am berfformiad, Gofal Heb ei Drefnu a'r ymagwedd strategol at 'Ddigidol'.

Holodd y Cynghorydd E. Goodjohn a fyddai Archwilio Cymru yn gwneud unrhyw waith dilynol ar yr adroddiad a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU ynghylch y Newid Hinsawdd. Mewn ymateb i hyn, dywedodd S.J. Byrne fod y Newid Hinsawdd ymhlith meysydd allweddol â blaenoriaeth Archwilio Cymru, a bod rhywfaint o waith cychwynnol wedi'i gyflawni, gyda'r disgwyl am waith adolygu pellach. Roedd union fanylion y gwaith i'r dyfodol yn dal heb eu pennu.

Ar ôl ystyried yr adroddiad, penderfynodd y Pwyllgor

PENDERFYNWYD –

- (1) NODI cynnwys yr adroddiad.
- (2) Y DYLLID cyfeirio'r adroddiad i'r Cabinet i'w oruchwyllo.

Rheswm dros y penderfyniadau

(1&2) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

99 ADRODDIAD ARCHWILIO MEWNOL BLYNYDDOL 2022/23 (PGAMR) –

Roedd yr adroddiad yn cyflwyno Barn Flynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol ynghylch amgylchedd rheoli'r Cyngor yng nghyswllt llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol. Roedd hefyd yn hysbysu'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio am waith a pherfformiad Archwilio Mewnol ar gyfer Blwyddyn Ariannol 2022/23. Darparwyd y wybodaeth hon i gydymffurfio â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus.

O'r gwaith a wnaed yn ystod blwyddyn ariannol 2022/23 ac o ystyried ffynonellau eraill o sicrwydd, roedd barn flynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol ynghylch ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth y Cyngor ar gyfer 2022/23 yn rhoi sicrwydd rhesymol.

Roedd yr Adroddiad Archwilio Mewnol Blynyddol wedi'i gynnwys y Atodiad A ac yn rhoi crynodeb o'r adolygiadau a gynhaliwyd ynn ystod 2022/23, yr argymhellion a wnaed ac unrhyw faterion rheolaeth a nodwyd. Cwblhawyd cyfanswm o 41 o adolygiadau gan roi barn archwilio, a gwnaed cyfanswm o 208 o argymhellion. Roedd dadansoddiad wedi'i gynnwys yn Anecs 1 yr atodiad. Mae'r adroddiad blynyddol hefyd y trafod perfformiad y gwasanaeth archwilio mewnol yn ystod y flwyddyn ac yn tynnu sylw at yr hyfforddiant a'r cyfleoedd datblygu yr oedd staff unigol wedi'u derbyn. Roedd y sefyllfa fanwl yn erbyn y cynllun archwilio wedi'i chynnwys yn Anecs 2, ac Anecs 3 oedd y datganiad sefyllfa ar gyfer monitro argymhellion.

O ran y farn dim sicrwydd yn gysylltiedig ag Ysgol Stanwell, roedd adroddiad archwilio mewnol llawn wedi'i ddangos yn Anecs 5 yr adroddiad.

O ran yr arolwg bodlonrwydd lle cafwyd cyfradd dychwelyd o 71%, cadarnhaodd Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol, gan fod 41 o farnau wedi'u mynegi, y byddai 41 o arolygon wedi cael eu hanfon allan.

Holodd y Cynghorydd M. Hooper ynghylch y cyfeiriad a'r data blynyddol cymharol ar gyfer nifer yr adolygiadau â barn resymol. Dywedodd Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol y byddai'r wybodaeth honno'n cael ei rhannu. Holodd y Cynghorydd Hooper hefyd ynghylch effaith staff yn gweithio gartref ar yr amgylchedd rheolaeth. Mewn ymateb i hyn, dywedodd Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol, mewn rhai amgylchiadau, y bu'n rhaid ymestyn graddfeydd amser i gwblhau asesiad neu dderbyn gwybodaeth gan fod staff yn gweithio gartref. Ar y cyfan, ystyriwyd nad oedd gweithio gartref yn amharu rhyw lawer ar yr amgylchedd rheolaeth.

Holodd M. Evans (Aelod Lleyg) am yr adolygiadau a oedd wedi'u cynnwys yn y categori blaenoriaeth uchel y llynedd, a oedd wedi'u cario ymlaen i 2023, a gofynnodd am gadarnhad ynghylch y broses ar gyfer bwrw ymlaen ag adolygiadau. Mewn ymateb i hyn, dywedodd Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol fod y cynllun archwilio yn cynnwys asesu risg a rheoli risg i sicrhau ymdriniaeth briodol. Yn ogystal â hynny, roedd angen ystyried amrywiaeth o faterion yn gysylltiedig â'r gwasanaeth, fel yr elfen o risg neu pe bai system newydd yn cael ei sefydlu neu reolwr newydd yn dechrau swydd. Byddai pob maes risg yn cael ei

fwydo i restr fanwl o archwiliadau posibl, a byddai archwiliadau penodol yn cael eu dewis i'w hadolygu o'r rhestr honno. Byddai hyn yn dibynnu ar yr adnoddau a oedd ar gael ac ar yr angen i sicrhau cwmpas archwilio priodol i bob Cyfarwyddiaeth.

Eglurodd Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol hefyd y byddai archwiliadau dilynol yn cael eu cynnal ym mhob achos lle na chafwyd sicrwydd, neu lle bu'r sicrwydd yn gyfyngedig.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at 97 o dargedau yn y dyfodol, fel y dangoswyd yn Anecs 3 a gofyn am gael ychwanegu colofn ychwanegol i ddangos dyddiadau cwblhau disgwylidig.

Cododd y Pwyllgor ymholiad ynghylch polisïau mewn ysgolion ynghylch gwariant o gronfeydd answyddogol, ac awgrymwyd y byddai'r Gyfarwyddiaeth Dysgu a Sgiliau yn gwneud gwaith adolygu pellach ar y polisïau hynny.

Symudodd y drafodaeth wedyn ymlaen at Anecs 5, ac at yr adroddiad ar Ysgol Stanwell lle cafwyd barn dim sicrwydd.

Gofynnodd y Cynghorydd J. Norman pryd oedd y tro diwethaf i'r ysgol gael ei harchwilio yn y modd hwn, ac am ba mor hir yr oedd yr ysgol wedi bod yn gweithredu fel yr oedd. Mewn ymateb i hyn, dywedodd Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol y byddai'n canfod pryd yr oedd yr ysgol wedi cael ei harchwilio diwethaf ac yn darparu rhagor o wybodaeth. Eglurodd Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol hefyd mai adroddiad barn dim sicrwydd, ac y byddai gwaith dilynol pellach yn dechrau ymhen amser.

Holodd y Cynghorydd J. Protheroe ynghylch datganiad a ddarparwyd gan Ysgol Stanwell ynghylch caffael, a nodai fod yr ysgol o'r farn nad oedd yn rhaid iddi gadw at reoliadau ariannol a chontract yr awdurdod lleol. Roedd y posibilrwydd y gallai hyn fod yn ddiwyddiad rheolaidd yn destun pryder.

Holodd y Cynghorydd E. Goodjohn ynghylch goruchwyliaeth o fewn yr ysgol dros y prosiect cyfalaf £700k lle cafwyd gorwariant.

Dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi drafftio nifer o argymhellion, yr oedd rhai ohonynt yn trafod y pwyntiau a godwyd gan y Cynghorydd Protheroe a'r Cynghorydd Goodjohn. Dyma oedd yr argymhellion i'w hystyried gan y Pwyllgor yn gysylltiedig ag Ysgol Stanwell:

- Dylai'r Awdurdod Lleol ystyried cyflwyno hysbysiad rhybuddio i'r ysgol o dan Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013. Rheswm. Sicrhau bod yr Awdurdod Lleol yn ystyried pob ymateb posibl ac ystyried pa mor ddifrifol yw'r sefyllfa yn Ysgol Stanwell a'r angen i weld cynnydd ar frys.
- Dylai'r Cyngor rannu'r adroddiad archwilio mewnol yn ffurfiol, ac ar fyrder, â holl lywodraethwyr y corff llywodraethu, a dylai'r Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau a'r Pennaeth Archwilio Mewnol gyfarfod ar frys â'r holl lywodraethwyr ac Uwch Dîm Rheoli'r ysgol (mewn cyfarfodydd ar wahân) i gyflwyno'r adroddiad archwilio mewnol.

Rheswm. Sicrhau tryloywder llwyr, didwylledd a dealltwriaeth lawn o'r sefyllfa ariannol ddifrifol sydd wedi datblygu yn Ysgol Stanwell.

- Rhoi'r newyddion diweddaraf i'r Pwyllgor hwn am gynnydd yn erbyn y cynllun gweithredu a'r cyfarfod sydd wedi'i drefnu ar gyfer 18 Medi 2023, a bod y Pennaeth a chynrychiolydd o Gorff Llywodraethu'r Ysgol yn bresennol i roi diweddariadau perthnasol ac ateb cwestiynau gan aelodau'r Pwyllgor.
Rheswm. Er mwyn sicrhau cynnydd parhaus ac ystyried pa mor ddifrifol yw'r sefyllfa.
- Lle bo'n briodol, dylai'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol weithio gydag Ysgol Stanwell i gynnwys ymatebion y rheolwyr i unrhyw argymhellion lle nad oedd sylwadau gan y rheolwyr ar hyn o bryd.
Rheswm. Sicrhau y rhoddir sylw llawn i'r broses archwilio.
- Y dylid rhoi'r flaenoriaeth i'r archwiliad mewnol o'r amgylchedd rheolaeth o fwn yr ysgol a gynlluniwyd ar gyfer tymor y hydref, a'i drefnu cyn gynted ag sy'n bosibl, a bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cael y newyddion diweddaraf ar ôl cyflawni'r gwaith hwnnw.
Rheswm. Oherwydd natur ddifrifol canfyddiadau'r archwiliad, a'r angen i gymryd camau dilynol ar frys.
- Y dylai'r holl drefniadau'n gysylltiedig â chyflenwi'r contract ar gyfer yr adeilad llesiant newydd gael eu hadolygu ymhellach i amlygu unrhyw wendidau gweithdrefnol penodol a nodi unrhyw gamau dilynol priodol. Y dylid cyflwyno canfyddiadau interim yr adolygiad hwn gerbron cyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 17 Gorffennaf 2023.
Rheswm. Ac ystyried pa mor ddifrifol yw'r sefyllfa yn gysylltiedig â rheoli'r contract yn Ysgol Stanwell, mae angen gwneud y gwaith manylach hwn ar frys.
- Dylid tynnu sylw'r Cabinet at yr adroddiadau archwilio mewnol ynghylch Ysgol Stanwell yn (atodiad 5) Eitem 9 ar Agenda'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 12 Mehefin 2023, a chyfeirio'r argymhellion a wnaed i sylw'r Cabinet. Dylid cyfeirio unrhyw adroddiad ac argymhellion dilynol i sylw'r Cabinet wrth iddynt godi.
Rheswm. Cyfeirio i sylw'r Cabinet

Cytunai'r Pwyllgor â'r argymhellion a awgrymwyd, o gynnwys y cyfeiriad ychwanegol at y broses gaffael at yr argymhelliad ynghylch adolygu trefniadau ar gyfer cyflawni'r contract ar gyfer yr adeilad llesiant newydd. Cytunai'r Pwyllgor hefyd ag argymhelliad ychwanegol ynghylch adolygu polisiau ysgolion ar draws Bro Morgannwg yn gysylltiedig â chronfeydd answyddogol.

Dywedodd y Cynghorydd J. Norman ei bod hi'n bwysig sicrhau bod cefnogaeth ar gael i staff yr ysgol.

PENDERFYNWYD –

(1) CYMERADWYO Adroddiad Archwilio Mewnol Blynnyddol Blwyddyn Ariannol 2022/23 gan gynnwys Barn Flynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol y Cyngor.

(2) MEWN perthynas ag Ysgol Stanwell, dylai'r Awdurdod Lleol ystyried rhoi hysbysiad rhybudd i'r ysgol o dan Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013.

(3) MEWN perthynas ag Ysgol Stanwell, dylai'r adroddiad archwilio mewnol gael ei rannu'n ffurfiol gan y Cyngor gyda'r holl Lywodraethwyr ar y Corff Llywodraethu ac y dylai'r Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau a Phennaeth Archwilio Mewnol gwrdd ar frys â holl Lywodraethwyr ac Uwch Dîm Rheoli'r ysgol (mewn cyfarfodydd ar wahân) i gyflwyno'r adroddiad archwilio mewnol.

(4) MEWN perthynas ag Ysgol Stanwell, bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn derbyn diweddariad ar y cynnydd a wnaed yn erbyn y cynllun gweithredu yn ei gyfarfod ar 18 Medi, 2023 a bod y Pennaeth a chynrychiolydd o'r Corff Llywodraethu o'r ysgol yn bresennol i ddarparu diweddariadau perthnasol ac ateb cwestiynau gan Aelodau'r Pwyllgor.

(5) MEWN perthynas ag Ysgol Stanwell, bod y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn gweithio gydag Ysgol Stanwell i ymgorffori ymatebion rheoli i unrhyw argymhellion nad oes ganddynt sylw rheoli ar hyn o bryd, lle bo hynny'n briodol.

(6) MEWN perthynas ag Ysgol Stanwell, bod archwiliad mewnol o'r amgylchedd a reolir yn yr ysgol sydd wedi'i gynllunio ar gyfer yr Hydref yn cael ei flaenoriaethu a'i drefnu cyn gynted â phosibl a bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn derbyn diweddariad yn dilyn y gwaith sy'n cael ei wneud.

(7) MEWN perthynas ag Ysgol Stanwell, bod yr holl drefniadau ynghylch cyflawni'r contract, gan gynnwys y broses gaffael, ar gyfer yr adeilad lles newydd yn cael ei adolygu ymhellach i dynnu sylw at unrhyw wendidau gweithdrefnol penodol a nodi unrhyw gamau dilynol priodol. Dod â chanfyddiadau interim yr adolygiad hwn i gyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 17 Gorffennaf 2023.

(8) MEWN perthynas ag Ysgol Stanwell, bod yr adroddiadau archwilio mewnol a gynhwysir yn Atodiad 5 o Eitem 9 Agenda Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio 12 Mehefin, 2023 a'r argymhellion a wnaed yn cael eu cyflwyno i sylw'r Cabinet. Caiff unrhyw adroddiad ac argymhellion dilynol eu cyfeirio at y Cabinet pan fyddant yn codi.

(9) BOD y Cyngor (Cyfarwyddiaeth Dysgu a Sgiliau) yn ymgymryd â gwaith pellach mewn perthynas â pholisïau ysgolion ledled Bro Morgannwg sy'n ymwneud â chronfeydd answyddogol.

Rhesymau dros benderfyniadau

(1) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

(2) Sicrhau bod yr AALI yn ystyried yr holl ymatebion posibl o ystyried difrifoldeb y sefyllfa yn Ysgol Stanwell a'r angen i weld cynnydd brys.

(3) Sicrhau bod tryloywder llwyr, didwylledd a dealltwriaeth lawn o'r sefyllfa ariannol ddifrifol sydd wedi datblygu yn Ysgol Stanwell.

- (4) Er mwyn sicrhau cynnydd parhaus o ystyried difrifoldeb y sefyllfa.
- (5) Sicrhau y rhoddir ystyriaeth lawn i'r broses archwilio.
- (6) O ystyried difrifoldeb canfyddiadau'r archwiliad a'r angen am ddilyniant brys.
- (7) O ystyried difrifoldeb y sefyllfa o ran rheoli'r contract yn Ysgol Stanwell, mae'r gwaith pellach hwn, mwy manwl yn fater brys.
- (8) At sylw'r Cabinet.
- (9) Cynnal adolygiad o bolisiâu o fewn ysgolion ynglŷn â chronfeydd answyddogol.

100 STRATEGAETH ARCHWILIO MEWNOL A CHYNLLUN SEILIEDIG AR RISG 2023/24 (PGAMR) –

Yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus, mae'n rhaid i'r Pennaeth Archwilio Mewnol sefydlu cynlluniau seiliedig ar risg i bennu blaenoriaethau'r gweithgarwch archwilio mewnol, sy'n gyson â nodau'r sefydliad. Dylai'r cynllun archwilio sy'n seiliedig ar risg gynnwys amgylchedd rheolaeth gyffredinol y Cyngor, gan gynnwys risg, llywodraethu a rheolaethau mewnol hyd y bo'n ymarferol.

Un o brif gyfrifoldebau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio oedd ystyried Strategaeth Archwilio a Chynllun Seiliedig ar Risg Blynyddol y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol.

Roedd y Strategaeth Archwilio Mewnol a gynigiwyd ar gyfer 2023/24 wedi'i chynnwys yn Atodiad A, a'r Cynllun Seiliedig ar Risg Blynyddol ar gyfer 2023/24 wedi'i gynnwys yn Atodiad B yr adroddiad hwn.

Dangosai'r Strategaeth sut y byddai'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn cael ei ddarparu a'i ddatblygu'n unol â Chylch Gorchwyl y Pwyllgor. Byddai'r Strategaeth yn cael ei hadolygu a'i diweddarau'n flynyddol mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid, sef y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, yr Uwch Dîm Arwain, Archwilwyr Allanol ac Uwch Reolwyr.

Roedd y Cynllun yn rhoi trosolwg i'r Pwyllgor o'r gwaith i'w gyflawni a fyddai'n cynnig ymdriniaeth ddigonol i allu ffurfio barn ar ddiwedd 2023/24.

Dywedodd N. Ireland (Aelod Lleyg) fod angen eglurder ynghylch y cysylltiadau rhwng yr archwiliadau a oedd wedi'u cynllunio a risgiau'r Cyngor, a hefyd y broses ar gyfer trefnu archwiliadau yn ôl blaenoriaeth, yn enwedig yr archwiliadau hynny â blaenoriaeth uchel a oedd wedi'u cario ymlaen o'r llynedd. Gofynnodd hefyd am gael ychwanegu amseriadau a dyddiadau cwblhau, hyd yn oed os nad oedd ond modd nodi ym mha chwarter y byddai'r gwaith yn digwydd. O ran amseriadau, dywedodd Dirprwy Bennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol y byddai colofn yn cael ei hychwanegu at y ddogfen i ddangos pryd y byddai disgwyl i archwiliadau gael eu cwblhau. Cyn gynted ag y byddai'r Cynllun Archwilio wedi'i

gymeradwyo, eglurodd y Dirprwy Bennaeth y byddai'r Cynllun hwnnw'n cael ei rannu â'r Cyfarwyddiaethau, gyda chais i amlinellu graddfeydd amser penodol. Fodd bynnag, roedd hefyd angen ystyried yr adnoddau a oedd ar gael, gan fod nifer penodol o ddyddiau'n cael eu dyrannu i bob awdurdod partner ar gyfer gweithgareddau archwilio. Mewn perthynas ag archwiliadau uchel eu blaenoriaeth, dywedodd y Dirprwy Bennaeth y byddai gwaith archwilio'n cael ei newid yn achlysurol i adlewyrchu blaenoriaethau'r Cyngor, er enghraifft gallai systemau ariannol mewn ysgol fod yn risg ganolig, ond bod yn rhaid i'r Tîm Archwilio edrych ar agweddau ehangach fel twyll er mwyn rhoi sicrwydd cyffredinol i Gyfarwyddiaethau. Byddai archwiliadau hefyd yn cael eu cynnal ar sail profiadau Archwilwyr a'r adnoddau a oedd ar gael. Ymhellach i'r pwynt hwnnw, dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth fod y Tîm Archwilio yn rhoi sylw i'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol, ac y byddai asesiad yn cael ei gynnal pe bai system newydd yn cael ei gweithredu, pe bai'r trefniadau rheoli yn newid, neu pe bai twyll yn destun pryder. Roedd y rhain i gyd yn rhan o'r broses asesu risg.

Cytunai'r Pwyllgor fod angen cael trafodaeth bellach y tu allan i'r cyfarfod ynghylch y ddealltwriaeth o lefelau blaenoriaeth, fformat y Cynllun, a pha mor fanwl ydoedd.

Dywedodd y Cadeirydd y dylid rhoi mwy o flaenoriaeth eto i archwiliadau lefel uchel a oedd wedi'u cario ymlaen o flynyddoedd cynt. Mewn ymateb i hy, dywedodd y Dirprwy Bennaeth Gwasanaeth fod 10 archwiliad heb eu dechrau yn 2021/22 a gariwyd ymlaen i gynllun 2022/23, a bod 4 wedi'u cwblhau yn 2022/23. Roedd 2 archwiliad wedi'u trafod drwy waith archwilio arall, er enghraifft roedd gwastraff wedi'i drafod drwy'r archwiliad risg a'r gwaith a wnaed gan ymgynghorwyr ar Oracle fusion, yn hytrach na chynnal archwiliad llawn, oherwydd yr oedi cyn gweithredu.

Ymhellach i'r pwynt a godwyd gan y Cadeirydd, dywedodd N. Ireland ei bod hi'n galonogol clywed bod cynnydd wedi'i wneud, ond y byddai'n dda i Aelodau'r Pwyllgor gael gweld rhai o'r adolygiadau cyfannol a gynhaliwyd yn rhan o'r broses rheoli risg. Dywedodd N. Ireland hefyd y byddai'n fuddiol i'r Aelodau gael dealltwriaeth well o unrhyw waith adolygu a oedd wedi'i gwblhau'n gysylltiedig â'r broses rheoli risg gyffredinol. Byddai hwnnw hefyd yn archwiliad defnyddiol i'w gynnwys yn y cynllun ar ryw bryd.

Cytunai Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol i ystyried y sylwadau a godwyd.

Wedi hynny,

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO'r Strategaeth Archwilio Mewnol (Atodiad A i'r adroddiad) a'r Cynllun Archwilio Blynyddol ar Sail Risg ar gyfer 2023/24 (Atodiad B i'r adroddiad).

Rheswm dros y penderfyniad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

101 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL WEDI'I DIWEDDARU 2023/24 (PGAMR) –

Roedd gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio nifer o swyddogaethau a chyfrifoldebau craidd o fewn ei gylch gwaith.

Roedd yn derbyn nifer o adroddiadau a chyflwyniadau drwy gydol y flwyddyn i'w alluogi i gyflawni'r swyddogaethau a'r cyfrifoldebau craidd hynny'n effeithiol, ac i roi hyder iddo yn nhrefniadau llywodraethu ariannol yr Awdurdod.

Fel bo modd i'r Pwyllgor roi'r sicrwydd hwn, ac i sicrhau ei fod yn ymdrin â'i ystod o gyfrifoldebau, roedd Blaenraglen Waith yn cael ei chyflwyno ym mhob cyfarfod, yn nodi'r adroddiadau a fyddai'n cael eu cyflwyno yn y cyfarfodydd nesaf, i'w cymeradwyo neu i'w diwygio, fel bo'r angen.

Roedd y Flaenraglen Waith ar gyfer 2023/24 wedi'i chynnwys y Atodiad A yr adroddiad. Gofynnwyd i'r Pwyllgor gymeradwyo'r Flaenraglen Waith gyfredol, neu ofyn am newidiadau i gyfarfodydd y dyfodol.

Nodwyd y byddai adroddiadau diweddarau pellach ar Ysgol Stanwell yn cael eu trefnu ar gyfer mis Gorffennaf a mis Medi.

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol yn amodol ar gynnwys adroddiadau diweddarau yn ymwneud ag Ysgol Stanwell a drefnwyd ar gyfer cyfarfodydd y Pwyllgor a osodwyd ar gyfer 17 Gorffennaf a 18 Medi, 2023.

Rheswm dros y penderfyniad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.